

Amgueddfa Cymru



Yn cyflwyno Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang

national
roman legion
museum
amgueddfa
lleng rufeinig
cymru

PWNC: ANGHYDRADDOLDEB
FFOCWS: CAETHWASIAETH

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

Beth yw'r Her Fer?

- Nod yr heriau yw profi eich Sgiliau
Cyflogadwyedd Hanfodol
- Bydd yr her hon yn canolbwyntio ar
 - **Ddatrys Problemau a Myfyrdod Beirniadol**
 - **Creadigrwydd ac Arloesi**

Beth yw'r Her Fer?

- **Anghydraddoldeb** yw'r dyraniad anghyfartal o gyfoeth, cyfleoedd neu driniaeth. Mae caethwasiaeth ac anghydraddoldeb ar sail rhyw yn enghreifftiau o anghydraddoldeb
- Mae Amgueddfa Cymru yn eich herio i ymchwilio i'r pwnc **Caethwasiaeth** ac **Anghydraddoldeb**, ddoe a heddiw



Beth yw'r Her Fer?

- Mae Amgueddfa Cymru yn eich herio i ymchwilio i gaethwasiaeth ac anghydraddoldeb, ddoe a heddiw
- Cewch eich herio wedyn i ddatblygu **Safbwynt Personol** ar y pwnc hwn a phecyn o adnoddau ar gyfer gweithgaredd i **Godi Ymwybyddiaeth** o'r pwnc hwn ymysg dysgwyr iau yn eich ysgol



Deall Caethwasiaeth ac Anghydraddoldeb

Pa fath o gaethwasiaeth sydd?

MASNACHU PLANT

Mae pobl ifanc (o dan 18 oed) yn cael eu symud naill ai o fewn y wlad lle maent yn byw neu i wlad arall er mwyn cam-fanteisio arnynt.

LLAFUR DAN ORFODAETH

Mae dioddefwyr yn cael eu gorfodi i weithio yn erbyn eu hewyllys. Byddant yn aml yn gweithio oriau hir iawn am gyflog isel neu ddim cyflog o gwbl mewn amgylchiadau trychinebus o dan fygythiad o drais yn eu herbyn hwy neu'u teuluoedd. Gall ddigwydd mewn sawl sector o'n heconomi ni, o fwyngloddio i osod tarmac, o letygarwch i becynnu bwyd.

CAETHIWED OHERWYDD DYLED

Mae dioddefwyr yn cael eu gorfodi i weithio am gyflogau isel i dalu dyledion na fyddant byth, mewn gwirionedd, yn gallu eu talu.

Deall Caethwasiaeth ac Anghydraddoldeb

Pa wahanol fathau o gaethwasiaeth sydd?

CAMFANTEISIO RHYWIOL

Mae dioddefwyr yn cael eu camddefnyddio ar gyfer rhyw yn erbyn eu hewyllys, ac yn aml yn cael eu gorfodi i fod yn buteiniaid.

CAMFANTEISIO TROSEDDOL

Caiff dioddefwyr eu rheoli a'u cam-drin yn aml, a'u gorfodi i gyflawni troseddau fel ffermio cannabis neu ddwyn yn erbyn eu hewyllys.

CAETHIWED DOMESTIG

Mae dioddefwyr yn cael eu gorfodi i wneud gwaith tŷ a thasgau domestig mewn cartrefi preifat am gyflog isel iawn neu ddim cyflog o gwbl, ni chaniateir iddynt symud o gwmpas yn rhydd, mae eu hamser rhydd wedi'i gyfyngu neu nid ydynt yn cael unrhyw amser rhydd, a dim ond ychydig o breifatrwydd a gânt. Byddant yn aml yn cysgu lle maent yn gweithio.

Deall Caethwasiaeth ac Anghydraddoldeb

- Mae caethwasiaeth wedi bodoli ac wedi bod yn broblem yng Nghymru yn ogystal â rhannau eraill o'r byd ers canrifoedd
- Bydd ymweld ag Amgueddfa Lleneg Rufeinig Cymru yn eich galluogi i ganfod mwy am gaethwasiaeth ac anghydraddoldeb yn y cyfnod Rhufeinig



Deall Caethwasiaeth ac Anghydraddoldeb

Caethwasiaeth ac Anghydraddoldeb yn y byd modern.

- Amcangyfrifir bod 30 miliwn o bobl ledled y byd yn byw mewn caethwasiaeth fodern
- Mae'r llun hwn yn dangos gweithwyr sy'n gaethweision yn dadlwytho 'pysgod gwastraff', a ddefnyddir i fwydo corgimychiaid, ym mhorthladd Songkhla, Gwlad Thai



Deall Caethwasiaeth ac Anghydraddoldeb

Caethwasiaeth ac Anghydraddoldeb yng Nghymru fodern.

- Mae achosion o gaethwasiaeth yn parhau i fod yn gyffredin yng Nghymru, gan gynnwys masnachu pobl a llafur dan orfodaeth
- Mae'r poster hwn gan Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn i bobl eu hysbysu ynghylch caethwasiaeth yng Nghymru fodern.

What have people like these got in Common?

LIMITED FAMILY CONTACT PHYSICAL AND SEXUAL ABUSE

UNABLE TO SPEAK WELSH OR ENGLISH DISTRUST OF AUTHORITY

UNDER ANOTHER'S CONTROL HAVING LITTLE OR NO FRIENDS

SAY 'NO' TO SLAVERY !

Emergency: 999
Non-emergency: 101
Crimestoppers: 0800 555 111

HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ar gyfer yr Her Fer Dewiswch agwedd ar Gaethwasiaeth ac Anghydraddoldeb heddiw



MODERN SLAVERY

MODERN SLAVERY IS CLOSER THAN YOU THINK

Modern Slavery is the illegal exploitation of people for personal or commercial gain. Victims are trapped in servitude, which they were deceived or coerced into, and cannot leave.

MODERN SLAVERY INCLUDES:



WHERE VICTIMS COMMONLY COME FROM



Slavery is closer than you think. It happens all over the world including the UK. Find out more at modernslavery.co.uk or to seek help or report slavery call the helpline.

0800 0121 700

Code use free from landline and most mobile networks

Figures are drawn from National Statistics Migration Statistics 2013 and 2014; A Strategic Assessment on the Risks and Scale of Human Trafficking in 2012; and also to potential victims of human trafficking.

Beth sy'n rhaid i chi ei wneud ar gyfer yr Her Fer?

1. Gwneud gwaith ymchwil ar agwedd ar y pwnc Caethwasiaeth ag Anghydraddoldeb a chyflwyno **Safbwynt Personol** ar y mater byd-eang hwn
2. Datblygu gweithgaredd **Codi Ymwybyddiaeth** i'w ddefnyddio gyda disgyblion iau. Cynhyrchu **Pecyn Codi Ymwybyddiaeth** sy'n cyfleu eich syniadau
3. Cwblhau **Myfyrdod Personol**

TASG 1 Eich Safbwynt Personol

- Chwiliwch am wybodaeth am y pwnc o amrywiaeth o ffynonellau
- Chwiliwch am wybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE)
- Nodwch eich barn bersonol am gaethwasiaeth ac anghydraddoldeb, gan wneud sylwadau am ddibynadwyedd y ffynonellau yr ydych yn cyfeirio atynt

Gwnewch Sylwadau ar Ddibynadwyedd eich Ffynonellau

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth yn fanwl neu wedi'i chyfyngu mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? Er enghraifft, a yw'n ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, a yw'n dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu a yw'n cyd-fynd â ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy h.y. a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd, neu wedi'i gorliwio?

Gwnewch sylw ar yr agweddau Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol

GWLEIDYDDOL	Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion
ECONOMAIDD	Agweddau a gweithredoedd rhieni a chyflogwyr
CYMDEITHASOL	Credoau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn rhai cymunedau
TECHNOLEGOL	Y defnydd o lafur plant gyda thechnoleg, peiriannau neu gyfarpar penodol
CYFREITHIOL	Cyfreithiau sy'n ymwneud â llafur plant a pha mor effeithiol ydynt
AMGYLCHEDDOL	Effaith anghydraddoldeb ar yr amgylchedd

TASG 2 Codi Ymwybyddiaeth

- Lluniwch becyn o adnoddau ar gyfer gweithgaredd i **Godi Ymwybyddiaeth** o agwedd ar **Gaethwasiaeth ac Anghydraddoldeb** ymysg dysgwyr iau yn eich ysgol
- Byddwch yn greadigol ac yn arloesol. Gallech ystyried cyflwyniadau, taflenni, ymgyrchoedd, gwefannau, blogiau, barddoniaeth, caneuon neu bosteri. Neu, yn well fyth, cyflwynwch eich syniadau gwreiddiol eich hun.



TASG 3 Eich Myfyrdod Personol

- Cofnodwch ac adolygwch eich **rôl bersonol** a'ch cyfraniad
- Myfyriwch ar eich **effeithiolrwydd personol**, gan gynnwys eich rôl chi ac fel aelod o dîm
- Os ydych wedi gweithio fel tîm, cofnodwch ac adolygwch sut y gwnaethoch ddatblygu a defnyddio eich **sgiliau personol a'ch sgiliau o ran gweithio mewn tîm**
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys **Creadigrwydd ac Arloesedd, a Myfyrdod Beirniadol a Datrys Problemau**

Sut y byddwch yn cael eich barnu?

- Pa mor dda rydych yn gweithio fel unigolyn neu fel rhan o dîm
- Eich Myfyrdod Beirniadol a'ch gallu i Ddatrys Problemau, a'ch Creadigrwydd ac Arloesedd
- Ansawdd eich **Safbwynt Personol a'ch gweithgaredd a phecyn Codi Ymwybyddiaeth**

I'ch helpu i ateb y briff, gallwch:



1. Ymweld ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
2. Paratoi ar gyfer yr Her Fer drwy ddefnyddio Pecyn Ffynonellau a Gweithgareddau Caethwasiaeth ac Anghydraddoldeb Amgueddfa Cymru